

Cyngor Tref Criccieth

Cofnodion cyfarfod y Cyngor Tref a gynhaliwyd am 7.00 o'r gloch, nos Fawrth , **8 Ionawr 2019** yn Siambr y Cyngor, Stryd Fawr, Criccieth.

Gweddi agoriadol

1-01/19: Presennol

Cadeirydd : Cyng. Elizabeth George* - heblaw am eitem 7(a)

Cyng. Robert Cadwalader; Cyng. Phil Jones; Cyng. Dafydd Lloyd; Cyng. Eirwyn Williams; Cyng. Wayne Roberts; Cyng. William A Evans; Cyng. Robert T Price; Cyng. Dr Ian Rees; Cyng. Dr E Tudor Jones; Cyng Sian Williams

Clerc – Dr Catrin Jones.

*Cadeiriwyd eitem 7(a) gan y Cyng Sian Williams gan fod y Cadeirydd wedi datgan diddordeb.

2-01/19 Ymddiheuriadau:

3-01/19: Datgan diddordeb

Cyng Dr Ian Rees ar gyfer 6(h) Stesion Criccieth - e-bost gan aelod o'r cyhoedd dyddiedig 10 Rhagfyr 2018

Cyng. Elizabeth George ar gyfer 7(a) C18/1129/35/LL – Cais llawn i godi dau dŷ deulawr par i gynnwys un uned fforddiadwy – Tir yng Nghefn Whitehouse, Lon Tynllan, Criccieth, LL52 OLB

Cyng. Dafydd Lloyd ar gyfer 7(a) C18/1129/35/LL – Cais llawn i godi dau dŷ deulawr par i gynnwys un uned fforddiadwy – Tir yng Nghefn Whitehouse, Lon Tynllan, Criccieth, LL52 OLB

Cyng. Robert Cadwaladr ar gyfer 7(b) C18/1161/35/LL – Cais ar gyfer codi tŷ deulawr – Tir ger Tanygrisiau Terrace, Criccieth, LL52 ODL

4-01/19 Cadarnhau cofnodion mis Rhagfyr 2018

Cadarnhawyd a llofnodwyd y cofnodion yn unol â'r gyfraith.

5-01/19 Eitemau brys ac er gwybodaeth (trwy law'r Cadeirydd/Clerc)

Materion er gwybodaeth yn unig – ni chaniateir penderfyniadau

6-01/19: Gohebiaeth

- a. Llywodraeth Cymru - Diweddariad Cyngor Cymuned a Thref - e-bost 20 Rhagfyr 2018

Roedd y manylion ychwanegol am gamau nesaf Llywodraeth Cymru wrth weithredu ei ddull polisi ar gyfer y sector cymuned a chynghorau tref wedi'i gylchredeg . Nodwyd nad oedd Llywodraeth Cymru am gyhoeddi ymateb manwl i'r Adolygiad - ac 'roedd y tabl yn nodi'r set o gamau 'roedd Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu cymryd dros weddill tymor y Cynulliad. Pwyslais y dull oedd annog a galluogi'r sector i ddatblygu a darparu'r elfen o ddewis i gynghorau benderfynu symud ymlaen, yn enwedig y rôl gallai'r cyngor ddymuno ei chwarae yn comisiynu a darparu

gwasanaethau. Nid oedd yn fwriad i ddeddfu ar hyn o bryd ond i gefnogi'r sector i gyflawni'r canlyniadau a ddymunir heb osod dyletswyddau newydd trwy newid deddfwriaeth. 'Roedd y tabl yn dangos y themâu a beth oedd modd gweithredu ar unwaith a hefyd beth oedd angen ystyriaeth bellach ar gyfer:

Egluro rôl y sector;
Cynyddu democratiaeth a chyfranogiad
Capasiti adeiladu
Adeiladu gallu
Gwella perthynas
Gwella atebolrwydd

Penderfyniad: Derbyn y wybodaeth a danfon am ystyriaeth maes o law i'r Is-grŵp Cyllid, Polisi a Rheolaethol i greu cynllun gweithredu i'r Cyngor Tref o beth sy'n bosib gwneud ar hyn o bryd mewn ymateb. Byddai nifer o'r materion yn cael eu cyfeirio at Un Llais Cymru.

- b. Swyddfa Archwiliad Cymru – datganiad i'r Wasg – 6 Rhagfyr 2018 – Mae angen i Lywodraeth Leol wneud rhagor i ddatblygu diwylliant data cadarn.

Nodwyd barn y Swyddfa Archwiliad bod angen i gynghorau gwneud rhagor o waith i 'chwalu'r drefn o weithio mewn seilios a manteisio i'r eithaf ar ddefnyddioldeb y data sydd ganddynt.

Penderfyniad: Derbyn y wybodaeth.

- c. Cylch yr Iaith - Ail-strwythuro Canolfannau Iaith Gwynedd - e-bost 9 Rhagfyr 2018

Derbyniwyd cais gan Cylch yr Iaith i ystyried danfon llythyr at Bennaeth Gwasanaethau Addysg Cyngor Gwynedd yn galw arno i roi heibio'r bwriad i ail-strwythuro trefn staffio'r Canolfannau Iaith- ac na fyddai gan gymorthyddion yr arbenigedd i gymryd lle athrawon cymwys.

Penderfyniad: I gefnogi Cylch yr Iaith a sgwennu at Bennaeth Gwasanaethau Addysg Cyngor Gwynedd

- d. Cyngor Gwynedd - Ymgynghoriad ar y drefn gosod tai cymdeithasol -e-bost 10 Rhagfyr 2018 - dyddiad cau 1 Mawrth 2019

Derbyniwyd y wybodaeth am yr ymgynghoriad ar gyfer y drefn i osod tai cymdeithasol. Roedd pum band - a'r ymgeisydd uchaf ym Mand 1 byddai yn cael blaenoriaeth - sef y bobl gyda chysylltiad efo'r' gymuned y lleolir yr eiddo ynddi, ac wedyn yn ôl dyddiad y cais.

Penderfyniad: Croesawu'r drefn arfaethedig – Cynghorwyr i ddanfon unrhyw sylwadau pellach i'r Clerc

- e. Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd 2011-2026 – gwahoddiad i gynnig sylwadau erbyn 31 Ionawr 2019 ar y Canllawiau Cynllunio Atodol:

- Tai Fforddiadwy
- Cynnal a Chreu Cymunedau Nodedig a Chynaliadwy

- Cyfleusterau a Llety i Dwristiaid – Ymgynghoriad Pellach

Penderfyniad: Derbyn y wybodaeth.

- f. Cwmni Hamdden Gwynedd - e-bost 14 Rhagfyr 2018

Nodwyd bwriad Cyngor Gwynedd i drosglwyddo cyfrifoldeb ar gyfer rheolaeth Canolfannau Hamdden Gwynedd i gwmni newydd sydd ym mherchnogaeth Cyngor Gwynedd.

Penderfyniad: Derbyn y wybodaeth

- g. Arloesi Gwynedd - Cronfa Peilota Gwynedd - e-bost 4 Rhagfyr 2018

Nodwyd y canllawiau ar gyfer y bid – a oedd ar gael i gymunedau wneud astudiaethau dichonoldeb, gweithgareddau neu i brynu offer i'w hannog i fod yn fwy cynaliadwy. Roedd cyfarfod wedi cymryd lle o'r Grŵp Llywio Cynllun Cymunedol cyn cyfarfod o'r Cyngor Tref i drafod syniadau ar gyfer y bid a chynigwyd y dylid gwneud cais am astudiaeth dichonoldeb i Adeilad y Llyfrgell. Roedd arian fyny at £10k ar gael ac angen cefnogaeth y Cyngor ar gyfer ei gyflwyno - gyda chadarnhad cyllideb fyny at £1k i gefnogi'r bid os yw'n llwyddiannus.

Penderfyniad: I gyflwyno cais ar gyfer astudiaeth dichonoldeb i Adeilad y Llyfrgell gyda chadarnhad cyllideb fyny at £1k i gefnogi'r bid os yw'n llwyddiannus.

- h. Stesion Criccieth - e-bost gan aelod o'r cyhoedd dyddiedig 10 Rhagfyr 2018

Derbyniwyd E-bost yn holi a yw'r Cyngor Tref wedi bod mewn cysylltiad gyda Thrafnidiaeth Cymru yn sgil y ffaith ei bod wedi ymrwmo i wella gorsafoedd trenau fel rhan o'u cytundeb newydd - gan y byddai o fudd i orsaf Criccieth a oedd yn fynedfa bwysig i'r dref ac yn gadael argraff ar ymwelwyr a thrigolion.

Penderfyniad: I sgwennu at Drafnidiaeth Cymru i holi am eu cynlluniau ar gyfer gorsaf Criccieth gan nodi ei fod yn fynedfa bwysig i'r dref.

- i. Cyfarfod Grŵp Cyfeiriol Budd-ddeiliaid Betsi Cadwaladr 11 Rhagfyr 2018 - e-bost 19 Rhagfyr 2018

Cylchredwyd y nodiadau o'r cyfarfod

Penderfyniad: Derbyn y wybodaeth

- j. Un Llais Cymru - sesiynau hyfforddiant - Ionawr- Mawrth 2019 - e-bost 6 Rhagfyr 2018

Cylchredwyd manylion am y sesiynau hyfforddiant – nodwyd eto nad oedd eu lleoliad yn hwylus ar gyfer teithio o Griccieth a bod sylw Un Llais Cymru wedi eu tynnu at hyn.

Penderfyniad: Derbyn y wybodaeth

k. NALC – Gradd Taliadau Cyflogau 2019-2020 – 7 Rhagfyr 2018

Cylchredwyd er gwybodaeth y radd taliadau cyflogau - sy'n weithredol o 1 Ebrill 2019

Penderfyniad: Derbyn y wybodaeth ar gyfer gweithredu taliadau o 1 Ebrill 2019

7-01/19: Ceisiadau Cynllunio

- a. C18/1129/35/LL – Cais llawn i godi dau dŷ deulawr par i gynnwys un uned fforddiadwy – Tir yng Nghefn Whitehouse, Lon Tynllan, Criccieth, LL52 0LB
Nodwyd bod dau lythyr o wrthwynebiad wedi cael eu derbyn drwy law'r Clerc. Roedd y rhain wedi eu cylchredeg yn y cyfarfod.

Penderfyniad: Dim sylwadau

- b. C18/1161/35/LL – Cais ar gyfer codi tŷ deulawr – Tir ger Tanygrisiau Terrace, Criccieth, LL52 0DL

Penderfyniad: Danfon sylwadau - gofyn i'r Adran Gynllunio i ymchwilio gan fod perchnogion y tir wedi cael iawndal blynnyddoedd yn ôl ar y ddealltwriaeth na fyddai yna ddatblygiad ar y tir am byth.

- c. C18/0698/35/LL - Cais i estynni'r adeilad cartref nyrsio a maes parcio ynghyd a chadarnhau lleoliad presennol uned biomas - Cartref Preswyl y Pines, Rhesdai Mona, Criccieth, LL52 ODE - bwriad wedi newid (chadarnhau lleoliad presennol uned biomas) - Gwybodaeth ychwanegol 15/12/2018

Penderfyniad: Gwrthwynebiad yn sefyll.

8-01/19: Llenwi sedd wag y Cyngor Tref

Nodwyd nad oedd cais wedi dod gan y cyhoedd am etholiad erbyn y dyddiad cau ac felly bod y rhybudd o fwriad y Cyngor i lenwi'r sedd wag drwy gyfethol wedi cael ei rhoi ar hysbysfwrdd y Cyngor Tref a'r safle. We yn gwahodd ceisiadau drwy lythyr erbyn y dyddiad cau o 31 Ionawr 2019.

Penderfyniad: Derbyn y wybodaeth

9-01/19 Diweddariad cyllid y Cyngor Tref 2018/19

Roedd ffigurau fyny at ddiwedd Rhagfyr 2018 gan gynnwys y daenlen wedi eu cylchredeg.

Nodwyd bod £26,316.50 wedi'i wario o'r gyllideb arferol fyny at ddiwedd Rhagfyr (£1213.00 TAW hyd yma), a bod costau Ionawr 2019 eto i ymddangos ar y cyfrifon, ac un siec heb ei glirio o Ragfyr. Byddai modd cael ad-daliad o'r TAW. - Roedd £8,276.34 o'r £9885.00 wedi ei ddefnyddio o'r grant Cronfa Cofio Cyfraniad Criccieth (£351.19 TAW hyd yma). Sieciau o £450 heb eu clirio o Ragfyr a hefyd rhai taliadau i ymddangos eto (ee placiau ac adroddiad gwerthuso)

Nodwyd y ffigwr o £65,371.50 yn y cyfrif "Community Account" a £30,433.26 yn y cyfrif cefn 'Money Manager'.

Tynnwyd sylw at y ffaith nad oedd bil wedi ei dderbyn oddiwrth Cyngor Gwynedd ar gyfer torri gwair ychwanegol. Roedd hyn yn swm sylweddol (£5k)

Penderfyniad: Derbyn y wybodaeth

10-01/19 Praesept 2019/2020

Nodwyd bod y Cyngor Tref wedi penderfynu ar lefel y praesept ar gyfer 2019/20 yn y cyfarfod diwethaf yn dilyn trafodaeth drylwyr ar gyllideb drafft ar gyfer y flwyddyn ac argymhellion yr Is-bwyllgor Cyllid, Polisi a Rheolaethol - lefel y praesept £42,000.

Penderfyniad: Sgwennu at Gyngor Gwynedd i gadarnhau'r penderfyniad ar gyfer praesept 2019/20.

11-01/19 Ceisiadau am gyfraniadau ariannol

Roedd y ceisiadau wedi eu cylchredeg i aelodau. Ystyriaeth o dan Adran 137 (4) (a) o Ddeddf Lywodraeth Leol 1972

Penderfyniad:

Neuadd Goffa Criccieth - £7,670

Dawns i Bawb - dim cyfraniad

Theatr Bara Caws – dim cyfraniad

Llyfrau Llafar Cymru – dim cyfraniad

Nyrsys Marie Curie- dim cyfraniad

Is-bwyllgor Cyllid Pholisi a Rheolaethol i ystyried y broses o wneud ceisiadau am gyfraniadau ariannol ar gyfer argymhellion i'r Cyngor Tref.

12-01/19: Prosiect Cofio Cyfraniad Criccieth - diweddariad

Nodwyd bod drafft o'r adroddiad gwerthuso wedi cael ei dderbyn gan y Clerc ar gyfer gwirio.

Penderfyniad: Derbyn y wybodaeth

13-01/19 Cynllun Cymunedol Criccieth – diweddariad

- a. Nodwyd bod bid i Arloesi Gwynedd o dan gynllun Strydoedd Unigryw wedi ei gyflwyno - disgwylir clywed canlyniad o fewn yr wythnos nesaf.
- b. Bid i Arloesi Gwynedd o dan gynllun Peilota (gweler 6 g uchod)

Penderfyniad: Derbyn y wybodaeth a nodi penderfyniad y Cyngor Tref o dan 6(g) uchod i gyflwyno bid ar gyfer y Cynllun Peilota.

14-01/19 Dyfodol Adeilad Cyngor Tref Criccieth a'r Llyfrgell

Roedd y Clerc wedi derbyn rhybudd terfynol gan Reolwyr Trethu Cyngor Gwynedd ar gyfer yr Adeilad -- roedd wedi ei ail gyfeirio gan rywun ac wedi ei dderbyn ar 31 Rhagfyr-2018. Nid oedd y Clerc wedi derbyn cyfathrebiaeth o gwbl cyn hyn am y mater. Roedd o ganlyniad i'r ffaith bod Adran Eiddo Gwynedd wedi rhoi gwybodaeth i'w swyddfa dreth bod Cyngor Tref Criccieth wedi cymryd cyfrifoldeb am yr Adeilad ers Ebrill 2018 er nad oed hyn yn gywir. Roedd y mater wedi ei gloi yn dilyn galwad ffôn gan y Clerc i'r Swyddfa yng Nghyngor Gwynedd - ac roedd e-bost o ymddiheuriad wedi ei dderbyn ar 3 Ionawr i gadarnhau hyn.

Penderfyniad: Derbyn y wybodaeth.

15-01/19 Trafnidiaeth yng Nghriccieth – cwynion a digwyddiadau difrifol

Nodwyd bod y wybodaeth am ganlyniad yr asesiad gan Gyngor Gwynedd dal i'w ddisgwyl.

Penderfyniad: Derbyn y wybodaeth.

16-01/19 Torri gwair yn y dref

Nodwyd nad oedd bil wedi do di law eto am y torri gwair ychwanegol gan Gyngor Gwynedd ar gyfer 2018.

Penderfyniad: Derbyn y wybodaeth.

17-01/19 Parcio yng Nghriccieth

Dim byd i'w adrodd

18-01/19 Torri coed yng Nghriccieth

Dim byd i'w adrodd.

19-01/19 Meinciau Tref Criccieth

Dim bydd i'w adrodd.

20-01/19 Llwybrau Cyhoeddus

Dim byd i'w adrodd.

21-01/19 Derbyniadau

Dim

22-01/19: Taliadau

• Cyllid y Wlad Yswiriant Gwladol(PAYE)	£72.90 (siec 101296)
• Cyflog y Clerc (Rhagfyr)	£659.98 (siec 101297)
• Costau Teithio Clerc	£19.30 (siec 101298)
• Miriam Jones	£100.00 (siec 101299)
• Cymen	£237.60 (siec 101300)

Penderfyniad: Rhoddwyd caniatâd i'r Clerc i dalu'r biliau.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.00 y.h.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor Tref ar **nos Fawrth 12 Chwefror 2019**.

****Bydd y rhaglen yma yn cau 4 Chwefror 2019****